Taflen Newyddion
Haf 2010

Cynnwys

Tudalen 1

News in the EU
Newyddion yr UE

Page 2-3
Beth fu Ewrop
Uniongyrchol Wrecsam yn ei wneud a'i Gynlluniau

Tudalen 4-5

Dathlu Gefeillio 2010 a chwis

Tudalen 6
Chwilair
Atebion y cwis

Trafodaeth ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin

Mae'r UE mae wedi agor trafodaeth gyhoeddus ar ei bolisi amaethyddol, y rhagarweiniad i ddiwygiad sylweddol yn 2013. Mae hyn yn unol â strategaeth economaidd hirdymor newydd yr UE sy'n gynllun economaidd 10 mlynedd, strategaeth Ewrop 2020. Mae'n debygol o fod â goblygiadau pellgyrhaeddol i amaethyddiaeth, yn rhannol oherwydd ei phwyslais ar economi carbon isel.

Mewn araith yn senedd Ewrop, dywedodd y comisiynydd amaethyddiaeth, Dacian Cioloş, bod y polisi cyfredol yn wynebu cryn heriau, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, problemau gydag argaeledd bwyd a phwysau ar adnoddau ac economïau cefn gwlad.

Bydd newidiadau'n cael eu cynnig tua diwedd y flwyddyn, ar ôl i'r comisiwn adolygu sylwadau'r cyhoedd. Byddent yn dod i rym ar ôl diwedd y rhaglen gyllido gyfredol yn 2013.

Y gobaith yw y bydd yr ymgynghori, a ddaeth i ben ym mis Mehefin, yn denu cyfraniadau gan ddefnyddwyr, ymgyrchwyr amgylcheddol a grwpiau lles anifeiliaid, yn ogystal ag amaethwyr.

Mae polisi amaethyddol yr UE – PAC – yn ceisio gwarantu safon byw resymol i amaethwyr, sicrhau digon o fwyd am brisiau teg, a chadw treftadaeth wledig Ewrop. Yn costio tua €55bn y flwyddyn, mae'n cyfrif am 40% o gyllideb yr EU, y rhan fwyaf ohono'n cael ei dalu i amaethwyr ar ffurf cymorthdaliadau uniongyrchol. Mae tua 5% o'r boblogaeth sy'n gweithio'n ymwneud ag amaethyddiaeth.

Mae'r UE wedi gwneud newidiadau helaeth i'r polisi dros y degawdau diwethaf, gan ddileu cymorth seiliedig ar gynhyrchu i ffermwyr a rhoi mwy o ryddid iddynt dyfu'r hyn mae'r farchnad eisiau. Mae arolwg diweddar yn dangos cryn gefnogaeth i'r polisi, gyda chwech o bob 10 atebwr yn dweud eu bod yn cefnogi'r gwariant presennol neu gyllideb fwy fyth.

Wrth i'r UE fynd ar ôl rhagor o ddiwygio, rhybuddiodd comisiynydd Cioloş bod llawer yn y fantol: "Mae'r digwyddiadau a welwyd yn y byd yn y ddwy flynedd diwethaf yn ein hatgoffa o hyn."

Yn 2008 gwelodd y byd gynnydd dirybudd a serth ym mhrisiau bwyd a achosodd brotestiadau mewn llawer gwlad. Y llynedd, gwelwyd ffermwyr godro Ewrop ar y strydoedd wedi gwylltio ynghylch prisiau llaeth yn plymio.

Canlyniadau gwleidyddol trychineb Smolensk

Roedd trychineb Smolensk ar 10 Ebrill yn fraw mawr i'r Pwyliaid, wrth i gymaint o brif wleidyddion gael eu lladd. Ataliwyd dadl wleidyddol ar unwaith gan y trychineb dynol lluosog. Aeth y wladwriaeth i drefn argyfwng ac ymddangosodd rhai cwestiynau ar sefydlogrwydd democratiaeth Gwlad Pwyl. Hwn oedd trychineb dynol a gwleidyddol mwyaf y wlad ers 1945.

Ymatebodd sefydliadau'r wladwriaeth i'r argyfwng mewn ffordd amserol a threfnus. Gweithredwyd darpariaethau'r cyfansoddiad. Ysgwyddodd yr Arlywydd dros dro gyfrifoldebau'r Pen Gwladwriaeth. Disodlwyd holl swyddogion gwladol eraill gan eu holynwyr dros dro. Cynhaliwyd etholiadau Arlywyddol cynnar ar 20 Mehefin.

Wrth i'r wladwriaeth Bwylaidd lwydd prawf sefydlogrwydd gwleidyddol, llwyddodd y genedl Bwylaidd brawf aeddfedrwydd democrataidd. Mae canlyniad uniongyrchol trychineb Smolensk hefyd yn agor posibiliadau newydd i bolisïau tramor ac Ewropeaidd Gwlad Pwyl a'i chysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd.

Beth fu Ewrop Uniongyrchol Wrecsam yn ei wneud a'i gynlluniau.

Marchnad Ffermwyr y Nadolig

Gwahoddwyd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam i gymryd rhan ym Marchnad Ffermwyr flynyddol y Nadolig, a gynhaliwyd yn Sgwâr y Frenhines, Wrecsam. Er ei bod yn ddiwrnod oer iawn, roedd yn ffordd wych o gael cyfle i siarad â'r cyhoedd, cael cwestiynau a rhannu Gwybodaeth.

Mae Ewrop Uniongyrchol Wrecsam yn rhoi gwybodaeth ddiweddar, am ddim ynghylch Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd ac yn trefnu a chymryd rhan mewn achlysuron lleol.

Os byddai eich sefydliad yn hoffai i Ewrop Uniongyrchol gymryd rhan mewn digwyddiad, cofiwch ein ffoniwch ar:

Ffôn: 01978 292090
Ebost: europedirect@wrexham.gov.uk

Cymru, Ewrop a'r Byd ym Mhrifysgol Glyndŵr
Mynychodd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam achlysur a drefnwyd gan Ewrop Uniongyrchol Llangollen, CILT Cymru a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

Roedd yr achlysur yn anelu at blant ysgol 14-19 oed, a'i nod oedd tynnu sylw at gysylltiadau Ewropeaidd a byd-eang Cymru a helpu'r disgyblion gael gwybod mwy am weithio, astudio a theithio yn Ewrop a'r byd ehangach wrth ddefnyddio ieithoedd i gael y mwyaf allan o'r profiad.

Roedd y diwrnod yn cynnwys amryw weithgareddau fel Dawnsio Salsa, Tai Chi, cyflwyniad Cymorth Dyngarol, sesiynau blasu Japaneg ac Ewro-Cwis. Roedd hefyd yn gyfle gwych i helpu iddynt ddysgu mwy am Ewrop a chyfoeth y cyfleoedd sydd ar gael.

Gŵyl Ddysgu Wrecsam

Gwahoddwyd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam i fynychu un o'r digwyddiadau yn ystod Gŵyl Ddysgu Wrecsam a gynhaliwyd yn Sgwâr y Frenhines Wrecsam fel rhan o Wythnos Dysgwyr Aeddfed.

Nod y diwrnod oedd gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r sefydliadau sydd ar gael o gwmpas Wrecsam sy'n cynnig amrywiaeth eang o ddysgu fel sgiliau cyfrifiadurol ymarferol a sgiliau sylfaenol golygu ffotograffau.

Dosbarthodd Ewrop Uniongyrchol amrywiaeth eang o gyhoeddiadau i helpu pobl ddysgu am ieithoedd, yr UE, gwahanol ddiwylliannau a gwledydd a'r amgylchedd.

Broughton Ynghyd

Achlysur diwylliannol a drefnwyd gan y Rheolwr Rhawd lleol i ddathlu amrywiaeth ddiwylliannau yn New Broughton.

Roedd yr achlysur yn anelu at ddod â'r gymuned yn nes at ei gilydd er mwyn dysgu mwy am ddiwylliannau, credau a dulliau byw pobl eraill.

Roedd gweithgareddau'n cynnwys perfformiad canu gan grŵp lleol Rainbow yn ogystal â mudiadau'n hyrwyddo eu gwasanaethau.

Gwahoddwyd Ewrop Uniongyrchol hefyd i ledaenu cyhoeddiadau er mwyn tynnu sylw at faterion yn yr Undeb Ewropeaidd ac Ewrop, gan gynnwys amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol.

Dathliadau Diwrnod Ewrop

Trefnodd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam ddiwrnod o weithgareddau i blant ysgolion uwchradd o gwmpas Wrecsam.

Dechreuodd y diwrnod gyda chyflwyniad cyffredinol ynghylch yr Undeb Ewropeaidd, ei hanes, sefydliadau, ieithoedd a gwledydd sydd wedi gwneud cais i ymuno.

Y gweithdy cyntaf oedd cwis ynghylch Ewrop lle'r oedd y plant yn gweithio mewn grwpiau o ddeuoedd neu drioedd a gwobr o sachau hwyl yn cynnwys llaweroedd o gyhoeddiadau i'r tîm a gafodd y sgôr uchaf.

Rhoddodd un gweithdy gyfle i ddisgyblion 'Ddylunio eich ASE eich hun' (Aelod o Senedd Ewrop). Cafodd y plant ddarn o bapur gydag amlinell o rywun ar gyfer trafod a phenderfynu'r nodweddion y meddylient oedd y rhai pwysicaf i ASE llwyddiannus eu cael. Trwy'r gweithdy hwn dysgodd y plant beth yw ASE a beth yw eu swyddogaeth.

Roedd y trydydd gweithdy a'r olaf ynghylch addurno bag Siopa Cotwm Ecogyfeillgar, gyda'r ysbrydoliaeth o faterion o gwmpas Ewrop.

Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd 22ain Medi 2010

Mae Ewrop Uniongyrchol Wrecsam wrthi'n trefnu Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd 2010. Mae'n achlysur blynyddol sy'n cael ei ddathlu o gwmpas Ewrop gyfan.

Mae 500 miliwn o ddinasyddion a 23 o ieithoedd swyddogol yn yr UE. Oherwydd hyn mae'n bwysig dysgu ieithoedd newydd i allu teithio, byw neu weithio'n rhwydd o gwmpas Ewrop. Mae gwybod ieithoedd eraill yn hyrwyddo cysylltiadau rhwng diwylliannau, cyd-ddealltwriaeth a chyfathrebu uniongyrchol rhwng dinasyddion.

Mae llawer o bobl yn digalonni ynghylch dysgu ieithoedd tramor gan eu bod dan yr argraff y byddai'n cymryd oes i ddysgu. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu y gall pawb gael meistrolaeth sylfaenol o leiaf ar iaith dramor gyda'r agwedd a chymhelliad iawn.

Yn ddiweddar, Gwahoddwyd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam i Ysgol Morgan Llwyd i siarad â myfyrwyr ynghylch Ewrop a manteision dysgu ieithoedd tramor cyfoes. Gall sgiliau iaith sy'n cael eu hennill mewn ysgolion ychwanegu'n sylweddol at obeithion astudio, gweithio a byw dramor.

Pwynt pwysig arall a wnaed oedd nad yw dysgu ieithoedd yn gorfod bod yn gyfyngedig i'r ysgol, colegau neu brifysgolion. Mae modd dysgu ieithoedd drwy gydol bywyd, pa oed bynnag. Yn aml bydd Colegau a Phrifysgolion lleol yn cynnig cyrsiau iaith ar gyfer oedolion. Mae Llyfrgell Wrecsam hefyd yn dal llawer o becynnau dysgu ieithoedd tramor y mae modd eu llogi am gyfnodau hir.

Bydd Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd eleni'n cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa, a bydd plant o ysgolion Wrecsam yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amryw weithdai wedi'u seilio ar egwyddorion dysgu ieithoedd tramor cyfoes.

EUROPEAN DAY 26 09 OF LANGUAGES

Dathliadau Gefeillio

16eg Hydref 2010

Mae gan Wrecsam dreftadaeth amlddiwylliannol amrywiol a chyffrous ac enghraifft o hynny yw ei chytundeb gefeillio gyda Märkischer Kreis, yr Almaen a Racibórz, Gwlad Pwyl.

Gefeilliwyd am y tro cyntaf ar 17eg Mawrth 1970 rhwng Kreis Iserlohn a Dosbarth Gwledig Wrecsam blaenorol. Sicrhaodd ei lwyddiant buan bod y Gefeillio wedi cael ei ddwyn ymlaen ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol yn y ddwy wlad ynghanol y saith degau gan gynghorau newydd Märkischer Kreis a Chyngor Bwrdeistref Wrecsam Maelor ac yna, yn 1996, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yn 2001 aeth Märkischer Kreis i drefniant Gefeillio gyda Racibórz (Ratibor), sir yng Ngwlad Pwyl, oedd gynt yn rhan o Silesia yn yr Almaen. Ym mis Medi 2002, ymwelodd dirprwyaeth o Racibórz â Wrecsam a dechreuwyd trafodaethau dechreuol ynghylch posibilrwydd cydweithrediad a arweiniodd, maes o law, at lofnodi Erthyglau Gefeillio rhwng Wrecsam a Racibórz ym mis Mawrth 2004

Ym mis Medi 2008, cynhaliodd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam achlysur. Roedd y diwrnod wedi cynnwys llawer o berfformiadau a stondinau gan sefydliadau lleol oedd yn ymwneud â'r Gefeillio. Roedd yn llwyddiant mawr gyda'r dorf leol.

Bydd achlysur tebyg eto eleni ar Sgwâr y Frenhines yn Wrecsam, lle bydd 'Marchnad Efeillio' yn darparu amrywiaeth o wybodaeth, bwydydd a chrefftau gan sefydliadau a busnesau lleol. Bydd digwyddiad o'r fath yn rhoi cyfle i bobl Wrecsam ddod i wybod mwy am Efeillio, Wrecsam a'r rhanbarthau sydd wedi gefeillio a beth mae'n golygu i fod yn ddinesydd Ewropeaidd.

Bydd mudiadau, clybiau, corau ac unigolion sydd wedi ymwneud â'r gefeillio yn cael eu gwahodd i gymryd rhan a byddant wrth law i ateb ymholiadau'r cyhoedd.

Bydd digwyddiadau'r diwrnod yn gweld llawer o berfformiadau fel arddangosiadau cleddyfa, corau lleol, a siaradwyr dan arweiniad yr orsaf radio gymunedol, Calon FM.

Felly dewch draw ar y diwrnod i bori'r stondinau, siarad â'r mudiadau a gwrando ar y perfformiadau!

Tylwyth Teg Ewropeaidd

Mae Ewrop Uniongyrchol Wrecsam ac Ewrop Uniongyrchol Llangollen wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd yn cynnal gweithdai ar draws rhannau o Ogledd Cymru lle bydd plant ysgol gynradd yn cael dysgu am Ewrop.

Caiff pob plentyn dylwyth teg o gardbord, gan ofyn iddynt ei addurno â phethau, darluniau neu lynion sy'n berthnasol i wlad yn yr Undeb Ewropeaidd.

Ar ôl iddynt orffen eu Tylwyth Teg Ewropeaidd, gallant eu gosod yn y wlad berthnasol ar fap llawr mawr a disgrifio'r hyn a ddysgwyd ganddynt am y wlad.

Hyd yma mae'r tylwyth teg a wnaed wedi bod yn wych, gan fod llawer o waith caled a dychymyg wedi mynd iddynt ac mae'r plant wedi mwynhau'r profiad ymarferol yn wirioneddol!

Cwis Haf yr Undeb Ewropeaidd

1. Faint o sêr sydd ar faner yr UE?

2. Faint o ieithoedd swyddogol sydd i'w cael yn yr UE?

3. Oes arnoch chi angen fisa i deithio yn yr UE?

4. Beth yw prifddinas Bwlgaria?

5. Faint o wledydd sydd yn Ardal yr Ewro?

6. Pa wlad sy'n enwog am ddawnsio fflamenco?

7. Ym mha wlad mae Tŵr Eiffel?

8. Ym mha wlad fydd pobl yn siarad Ffinneg?

9. Faint o wledydd sy'n aelod-wladwriaethau o'r UE?

10. Ym mha flwyddyn gafodd arian yr Ewro ei gyflwyno yn yr UE?

11. Ym mha flwyddyn gafodd yr UE ei alw'n Undeb Ewropeaidd?

12. Baner wlad yw hon?

13. Enwch y rhain a pha wlad sy'n gysylltiedig â nhw?

14. Ar ba ddiwrnod mae Diwrnod Ewrop yn cael ei ddathlu?

15. Beth yw ystyr y llythrennau ASE?

16. Ymhle mae Senedd Ewrop?

17. Beth yw'r rhif argyfwng Ewropeaidd?

18. Sut fyddech chi'n dweud Helo mewn Eidaleg?

19. Ym mha flwyddyn wnaeth y DU ymuno â'r UE?

20. Beth yw arwyddair yr UE?

Gwefannau defnyddiol i gael gwybodaeth am yr Undeb Ewropeaidd:

www.europarl.com
www.europe.org.uk
www.europa.eu

Mae'r atebion ar dudalen 6

Chwilair Ewropeaidd

Faint o eiriau cysylltiedig ag Ewrop allwch chi weld?

A	E	C	F	G	I	RH	H	A	FF	E	DD	D	CH	B	Y
J	W	L	N	Y	U	LL	T	S	M	R	O	P	L	M	R
U	R	B	G	F	H	A	PH	D	CH	A	C	Y	O	W	A
I	O	L	A	M	P	S	R	O	M	J	E	F	S	E	L
T	U	I	B	D	E	NG	C	A	Y	W	DD	TH	A	F	M
G	N	J	N	P	O	R	T	S	RH	M	H	L	TH	I	A
B	D	G	I	O	H	F	CH	E	C	A	Y	W	I	U	E
L	N	U	S	R	P	O	J	T	L	O	D	I	E	M	N
T	Y	B	D	W	E	FF	H	J	I	G	F	C	D	A	W
M	O	T	W	E	A	Y	LL	U	RH	S	R	P	M	N	L
N	B	E	G	D	H	L	M	J	H	F	DD	D	Y	C	NG
Y	O	S	U	O	Y	B	DD	C	A	W	T	R	C	P	N
T	D	E	G	N	J	L	P	R	O	M	I	F	U	H	FF
S	W	T	W	R	E	I	FF	E	L	A	Y	U	A	T	S
E	C	F	H	W	J	M	N	L	I	G	E	DD	G	D	B
M	P	S	U	I	Y	LL	B	D	C	A	W	T	LL	R	O
Y	R	U	N	D	E	B	E	W	R	O	P	E	A	I	DD

Diwrnod Ewrop
Amaeth
Tlodi
Tŵr Eiffel
Yr Undeb Ewropeaidd
Ewro
Yr Almaen
Rhufain
Mur Berlin
Ymestyn
Allgáu Cymdeithasol

Atebion y Cwis

1. 12
2. 23
3. Nac oes
4. Sofia
5. 16
6. Sbaen
7. Ffrainc
8. Y Ffindir
9. 27
10. 2002
11. 1991
12. Sweden
13. Clocsiau, Yr Iseldiroedd
14. 9fed Mai
15. Aelod o Senedd Ewrop
16. Brwsel
17. 112
18. Ciao
19. 1973
20. Unedig mewn Amrywiaeth

Europe Direct

Llyfrgell Wrecsam

Ffordd Rhosddu

Wrecsam, LL11 1AU

Ffôn: 01978 292090

Ffacs: 01978 292611

Ebost: europedirect@wrexham.gov.uk

www.wrecsam.gov.uk/europedirect